

## **Fideo: Peter Harper yn esbonio Cyfrifiannell Carbon Y Brifysgol Agored**

Mae a wnelo cyfrifiannell Y Brifysgol Agored ag olion troed unigolion a cheisio helpu pobl i gyfrifo beth yw eu hól troed eu hunain.

Rwy'n credu ei fod yn helpu rhai pobl i wybod ble maen nhw'n sefyll yn hynny o beth, am ei fod mor anweledig – rydych chi'n gofyn i chi eich hun, ble mae e? Ble mae'r delweddau? Beth rwy'n ei wneud?

Mae cyfrifiannell Y Brifysgol Agored yn ei rannu'n adrannau llai, fel hedfan a bwyd a'r hyn rydych chi'n ei brynu ac ati. Wedyn gallwch weld, er enghraifft, mae hwn yn un mawr.

Neu, rwy'n ailgylchu gryn dipyn. Nid yw'n ymddangos ei fod yn gwneud llawer o wahaniaeth, ac yn y blaen. Mae'n chwalu camagraffiadau.

Felly, mae cyfrifiannell Y Brifysgol Agored yn eithaf unigryw mewn rhai ffyrdd, yn yr ystyr ei bod yn canolbwyntio ar safbwynt defnydd. Felly, yr hyn rydych chi'n ei ddefnyddio, nid yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu ym Mhrydain.

Hefyd, mae'n bwysig cynnwys yr holl bethau y mae'r llywodraeth yn eu gwneud. Popeth – yr holl seilwaith. Ac nid yw'r rhan fwyaf o gyfrifiannellau'n cynnwys hynny am na allwch chi wneud dim byd am y peth. Ni allwch roi'r gorau i'w prynu, oherwydd mae yno beth bynnag ac rydych chi'n talu amdano drwy eich trethi. Rydym yn awyddus i gynnwys hynny. Ac mae hynny'n bwysig oherwydd mae'n dangos y wleidyddiaeth sydd ei hangen. Felly, mae angen rhywfaint o weithredu ar y cyd er mwyn cael gwared ar y pethau hyn. Mewn gwirionedd, os byddwch yn parhau i ddefnyddio'r gyfrifiannell, byddwch yn gweld mai mater gwleidyddol o ddatgarboneiddio'r seilwaith yw hyn i raddau helaeth.